

Cwestiynau Cyffredin

C: Pam mod i angen contract Gwasanaeth Masnachol?

A: Mae'n ofyniad cyfreithiol fod gan unrhyw fusnes ddyletswydd gofal i storio yn ddiogel y gwastraff y mae eu gweithgaredd yn ei gynhyrchu a gwaredu â'r gwastraff hwnnw yn defnyddio cludwr gwastraff trwyddedig.

C: A yw gwasanaethau Gwastraff Masnachol yn dod o fewn fy nhrethi busnes?

Na: Nid yw trethi busnes yn cynnwys costau gwasanaeth Gwastraff Masnachol.

C: Pam eich bod chi angen gwahanu gwastraff busnes?

A: Mae'r ddeddfwriaeth ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn gwneud hyn yn ofynnol am y rhesymau dilynol:

- Cynyddu lefelau ailgylchu gwastraff busnes, trin gwastraff bwyd ac adfer ynni a gostwng y gwastraff sy'n mynd i domen lanw
- Atal llosgi deunyddiau y gellid eu hailgylchu
- Helpu i ddiogelu'r amgylchedd ac adnoddau naturiol.

C: Ai dim ond Gwasanaethau Gwastraff Masnachol y Cyngor sydd angen gwahanu'r gwastraff yma?

A: Na, bydd yn ofynnol i bob darparwydd gwastraff gwastraff trwyddedig yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat gasglu gwastraff masnachol yn y ffordd hon. Bydd gorfodaeth yn dechrau ym mis Hydref 2021.

C: Faint o wahanol gynwysyddion fyddaf eu hangen?

A: Er fod angen i ni gasglu nifer o nifer o wahanol fathau o eitemau ailgylchu, gallwn gyd-gasglu rhai ohonynt felly caiff eich ailgylchu ei wahanu yn dair ffrwd wahanol ar gyfer cyflwyno a chasglu:

Papur a Chardfwrdd (yn gymysg)

Cynwysyddion Plastig a Chaniau Metel (yn gymysg)

Poteli a Jariau Gwydr (pob lliw yn gymysg).

Mae gennym nifer o opsiynau cynhwysydd ar gyfer pob un o'r tri ffrwd gwastraff i'ch galluogi i gynyddu eich proffil gwastraff a gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd gennych ar gael.

C: A yw gwasanaethau gwastraff masnachol y cyngor yn cynnwys gwastraff Peryglus neu Glinigol?

A. Na. Mae angen gwasanaeth cwmni gwastraff arbenigol ar gyfer gwastraff Peryglus neu Glinigol.

C: Faint mae'n ei gostio?

A: Mae hyn yn dibynnu ar y gymysgedd o wastraff ailgylchu a gweddilliol. Mae costau ailgylchu yn llawer is na gwastraff gweddilliol sy'n annog ailgylchu yn ogystal â dangos y gwahaniaethau yn y costau gwaredu. Mae hefyd ffi gweinyddol blynyddol ar gyfer y Nodyn Dyletswydd Gofal/Trosoglwyddo Gwastraff. I gael mwy o wybodaeth ffoniwch 01495 311556 neu E-bostio eich ymholiad i info@blaenau-gwent.gov.uk

C: Beth os wyf angen cynyddu neu ostwng y nifer neu'r cymysgedd o gynwysyddion yn ystod y contract?

A: Os yw eich gofynion cymysgedd neu faint biniau yn newid, byddwn yn gweithio gyda chi i gynnig y cymysgedd gorau (nid yw'n cynnwys canslo).

C: Sut mae talu am y gwasanaeth?

A: Gellir gwneud taliadau am y flwyddyn gontract lawn, yn chwarterol neu eu lledaenu dros y flwyddyn mewn rhandaliadau drwy ddebyd uniongyrchol.

C: Os wyf yn clirio pethau a bod gennyf fwy na fy nghontract wythnosol o wastraff, a all hyn gael ei gasglu?

A: Gellir casglu gwastraff ychwanegol am ffi ychwanegol, yn seiliedig ar faint o wastraff dros ben sydd.

C: Beth mae'r term "Gwastraff Gweddilliol" yn ei olygu?

A: Yng nghyd-destun gwasanaethau gwastraff y cyngor, mae gwastraff gweddilliol yn cyfeirio at wastraff cyffredinol (nid peryglus neu glinigol) nad

yw'n dod o fewn ailgylchu sych (papur glân, cardfwrdd, cynwysyddion plastig, cynwysyddion metel [caniau bwyd neu ddiod], neu wydr) neu categorïau ailgylchu bwyd.

C: Beth yw hyd y contract?

A: Contractau treigl o 12 mis, casgliadau wythnosol yn seiliedig ar 52 wythnos/blwyddyn (42 wythnos/blwyddyn ar gyfer ysgolion/ffreuturau ysgolion). Mae gennym ddewis eang o gynwysyddion a all ddarparu ar gyfer llwythi bach neu fawr o wastraff.

C: Beth yw'r "Hierarchaeth Gwastraff"?

A: Blaenoriaeth 6 cam sy'n blaenoriaethu'r hyn a wnawn yn ymwneud â gwastraff sy'n dechrau gyda'r cam a ffafrir fwyaf sef Atal/Osgoi (creu gwastraff) drwy Ostwng, Ailddefnyddio, Ailgylchu, Adfer (ynni) drwy'r opsiwn olaf a'r un a ffefrir leiaf sef Gwaredu (e.e. tomen lanw, nad yw ond yn cael ei ddefnyddio pan fo popeth arall wedi methu). Yn sylfaenol, mae'n rhaid i ni gymryd camau i osgoi cynhyrchu gwastraff lle'n bosibl ac yna ailddefnyddio ac ailgylchu popeth a fedrwn cyn creu gwastraff gweddilliol. Mae cydymffurfiaeth â'r hierarchaeth gwastraff yn amod o wasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

C: Sut y gallaf roi gwybod os oes problem?

A: Drwy Ddesg Gymorth y Cyngor ar 01495 311556 neu info@blaenau-gwent.gov.uk